YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR



# Tymor yr Hydref 2019 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

## Thema'r tymor yw: **Dyma Fi!**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

Datblygu ein sgiliau prosesu geiriau.

Datblygu sgiliau cadw ac adfer gwaith.

**Addysg Grefyddol:**

Trafod a dysgu am draddodiadau yn ymwneud â geni a bedyddio babanod.

Dysgu am 'seremoni enwi' y crefydd Siciaeth.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am ein cyrff gan enwi rhannau'r corff a thrafod sut yr ydym ni'n wahanol neu yn debyg i'n gilydd. Trafod sut mae ein cyrff yn newid wrth dyfu.

**Y Dyniaethau**

- Dysgu a darganfod am y newidiadau sy'n digwydd yn ystod tymor yr Hydref ym Mharc Brynmelin
- Dysgu am y gwahaniaethau ym mywydau plant heddiw a 'slawer dydd.

Y Celfyddydau Mynegiannol

- Astudio gwaith arlunydd enwog.
- Ymarfer sgiliau arlunio wrth greu portreadau gan ddefnyddio amrywiol ddulliau a meddalwedd Technoleg Gwybodaeth.
- Dysgu caneuon newydd a defnyddio offerynnau taro i greu cyfeiliant i'r gerddoriaeth.

**Iechyd a Lles**

- Dangos gofal, parch a hoffter at ein gilydd, tuag at oedolion a'n hamgylchedd.
- Dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein cyrff.
- Dod yn fwy annibynnol ac hyderus yn ein dysgu.
- Ymarfer a datblygu ein sgiliau gymnasteg a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae ' Meddygfa Bryn y Môr'
- Darllen a gwrando ar lawer o straeon doniol a diddorol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu at bwrpasau gwahanol.
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau .
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur hyd ac astudio siap.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

Oriel y Glynn Vivian –

Parc Brynmelin – dyddiad i'w drefnu